Y Comisiwn Etholiadol

Hysbysiad o benodi neu derfynu penodiad dirprwy drysorydd neu ddirprwy swyddog ymgyrchu

Nodiadau esboniadol ar lenwi ffurflen RP5

Rhaid i bleidiau cofrestredig sydd am benodi dirprwy drysorydd (neu ddirprwy swyddog ymgyrchu, os yw'r blaid wedi cofrestru swyddog ymgyrchu) hysbysu'r Comisiwn Etholiadol o benodiad y swyddog gan ddefnyddio ffurflen RP5. Gall plaid benodi hyd at 12 o ddirprwy swyddogion ar unrhyw adeg. Pan gaiff unrhyw benodiad o'r fath ei derfynu, dylid defnyddio ffurflen RP5 i hysbysu'r Comisiwn o'r terfyniad a rhoi gwybod p'un a oes rhywun arall wedi'i benodi yn lle hynny. Dylid defnyddio ffurflen RP5 hefyd i hysbysu'r Comisiwn o newidiadau i gyfeiriad unrhyw ddirprwy swyddog.

Dylai pleidiau nodi y dylid hysbysu'r Comisiwn o newidiadau i benodiadau dirprwy swyddogion o fewn 14 diwrnod i'r newid, a dylid ei hysbysu o newidiadau i'w cyfeiriadau o fewn 28 diwrnod i'r newid.

Pwysig: ni chaiff unigolyn ei ystyried yn ddirprwy swyddog at ddibenion gwariant ymgyrchu oni bai ei fod wedi'i gofrestru â'r Comisiwn.

Mae pob un o'r nodiadau canlynol yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar ffurflen RP5.

1 Manylion plaid gofrestredig

Nodwch enw'r blaid gofrestredig a'i rhif cyfeirnod.

2 Llofnod

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan drysorydd cofrestredig y blaid os mai dirprwy drysorydd sy'n cael ei benodi neu gan swyddog ymgyrchu cofrestredig y blaid os mai dirprwy swyddog ymgyrchu sy'n cael ei benodi.

Penodi dirprwy swyddog

3 Manylion y swyddog i'w gofrestru

Rhowch enw llawn a chyfeiriad swyddfa'r unigolyn sydd i'w gofrestru'n ddirprwy swyddog. **Caiff y cyfeiriad hwn ei gynnwys ar gofnod cofrestr y blaid.**

4 Datganiad

Rhaid i'r unigolyn sydd i'w gofrestru'n ddirprwy swyddog lofnodi a dyddio'r datganiad, gan ddatgan nad yw wedi'i gollfarnu o drosedd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, nac mewn cysylltiad ag unrhyw etholiad arall, yn ystod y pum mlynedd diwethaf. **Mae'n drosedd cofrestru unigolyn yn ddirprwy drysorydd neu'n swyddog ymgyrchu os yw wedi'i gollfarnu o drosedd o'r fath.** Dylid hefyd nodi ar ba ddyddiad y daeth y penodiad i rym.

Newid cyfeiriad swyddfa

5 Cyfeiriad swyddfa gofrestredig

Nodwch gyfeiriad swyddfa gofrestredig bresennol y dirprwy swyddog.

6 Cyfeiriad newydd

Rhowch fanylion cyfeiriad y swyddfa newydd sydd i'w chofrestru ar gyfer y dirprwy swyddog, a'r dyddiad y newidiodd y cyfeiriad.

Terfynu penodiad

7 Manylion swyddog y mae angen tynnu ei enw oddi ar y gofrestr

Rhowch enw'r dirprwy swyddog y mae ei benodiad wedi dod i ben, a'r dyddiad y daeth ei benodiad i ben.

Dylid dychwelyd ffurflen RP5 i:

Party Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Pwysig: wrth ddelio â cheisiadau, mae'r Comisiwn Etholiadol yn ystyried gofynion deddfwriaeth mynediad cyfartal, gan gynnwys Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000) a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1985.

Y Comisiwn Etholiadol

Hysbysiad o benodi/terfynu penodiad dirprwy drysorydd neu ddirprwy swyddog ymgyrchu

Pwysig: dylid darllen y nodiadau esboniadol atodol cyn llenwi'r ffurflen hon.

1 Manylion plaid gofrestredig

Enw'r blaid

Cyfeirnod y blaid

2 Llofnod

I'w lofnodi gan y trysorydd/swyddog ymgyrchu cofrestredig presennol (dilëer fel y bo'n gymwys)

Llofnodwyd

Enw wedi'i brintio

Dyddiad dd mm bbbb

Adran A: Penodi

3 Manylion y swyddog i'w gofrestru

Enw llawn

Cyfeiriad

Tref

Sir

Cod post

4 Datganiad

Datganaf fy mod wedi derbyn swydd dirprwy drysorydd/swyddog ymgyrchu* a chadarnhaf nad wyf wedi cael fy nghollfarnu o unrhyw drosedd mewn cysylltiad ag etholiad neu refferendwm perthnasol ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd diwethaf. (*dilëer fel y bo'n gymwys)

Llofnodwyd

Enw wedi'i brintio

Dyddiad dd mm bbbb

Dyddiad dechrau'r penodiad dd mm bbbb

Adran B: Newid cyfeiriad swyddfa

5 Cyfeiriad swyddfa gofrestredig

Enw llawn

Cyfeiriad

Tref Sir Cod post

6 Cyfeiriad swyddfa newydd

Dyddiad newid y cyfeiriad dd mm bbbb

Cyfeiriad

Tref Sir Cod post

Adran C: Terfynu penodiad

7 Manylion swyddog y mae angen tynnu ei enw oddi ar y gofrestr

Enw llawn

Dyddiad y daeth y penodiad i ben dd mm bbbb

Dychwelwch y ffurflen hon i:

Party Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol

Dyddiad derbyn dd mm bbbb

Gwiriwyd gan

Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata dd mm bbbb

Rhif cyfeirnod ffeil

Datganiad preifatrwydd

Dim ond er mwyn cefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, nac unrhyw wybodaeth bersonol y gallwch ei rhoi am bobl eraill, ag unrhyw unigolyn oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen arnom er mwyn cyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i'r Comisiwn Etholiadol fel y nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig a deddfwriaeth etholiadol arall.

Caiff rhywfaint o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu'n ddata personol categori arbennig. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon er budd sylweddol y cyhoedd, sy'n seiliedig ar gyfraith y DU. Er mwyn prosesu'r math hwn o wybodaeth, mae'n rhaid bod gan y Rheolydd Data ddogfen bolisi berthnasol sy'n nodi'r modd yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolwr Data a gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@electoralcommission.org.uk.

Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd i gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu data personol.